



FWJLAF 01

Cyd-Fforwm Mynediad Lleol Sir y Fflint a Wrecsam

Cofnodion y cyfarfod cyntaf a gynhaliwyd ddydd Iau 7 Chwefror
2019 ym Mharc Gwepira, Cei Connah

01/19 Presenoldeb ac Ymddiheuriadau

Yn bresennol:

YSGRIFENNYDD:

Caroline Selby (CS)

AELODAU:

Hannah Arndt (HA)
Penelope Coles (PC)
Rachel Lewis (RL) – o 1.40pm
Mabyn Pickering (MP)
David Collins (DC)
David Evans (DE) – tan 1.40pm
Neville Howell (NH)
Alan Neale (AN)
Bill Stephens (BS)
Tim Stratton (TS)
Edward Wardle (EW) – tan 2.25pm
Martin Howorth (MH)

RHAI NAD YDYNT YN AELODAU:

Tom Woodall (TW), CSyFf
Alun Price (AP), Cyfoeth Naturiol Cymru
Sean Hanratty (SH), CBSW
Siôn Roberts (SR), CBSW
Derrick Charlton (DCh), CSyFf
Natalie Davies (ND), CSyFf
Jon Hill (JH), CSyFf
Stuart Jones (SJ), CSyFf
Carolyn Thomas (CT), Aelod Cabinet CSyFf – o 12.20pm tan 3.30pm

Ymddiheuriadau:

John Holiday

Croesawodd CS bawb i gyfarfod cyntaf Cyd-Fforwm Mynediad Lleol newydd Sir y Fflint a Wrecsam, gan longyfarch yr aelodau am eu ceisiadau llwyddiannus a'u

penodiadau fel aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol. Eglurodd CS mai'r Ysgrifennydd fydd yn cadeirio ac yn cynnal cyfarfod cyntaf y Fforwm Mynediad Lleol (FfMLI) newydd fel y nodir yn Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

02/19 Cyflwyno'r Aelodau

Credodd CS ei fod yn syniad da i'r aelodau gyflwyno eu hunain ac egluro pam eu bod wedi ymuno â'r FfMLI. Dechreuodd CS ac fe'i dilynwyd gan yr aelodau a TW ac AP.

03/19 Cyflwyniad i'r Fforwm Mynediad Lleol a'r Swyddogion

Cyflwynodd MH a TW y swyddogion o'u hadrannau, ynghyd â rôl a pherthynas y FfMLI a'r ddau awdurdod lleol.

Ymddiheurodd MH fod y broses wedi cymryd cryn dipyn o amser. Mae MH yn gobeithio y bydd pawb yn gallu meithrin perthynas waith dda fel FfMLI ac mae'n edrych ymlaen at gydweithio mewn ffyrdd newydd.

Ategodd TW hyn. Bydd y gwaith yn strategol ond bydd angen cadw agwedd leol.

04/19 Esboniad o'r Weithdrefn Benodi ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd

Roedd CS wedi dosbarthu copïau o'r Weithdrefn Benodi a chais am enwebiadau, ond ni dderbyniwyd unrhyw enwebiad. Felly, gofynnwyd am enwebiadau yn ystod y cyfarfod.

Gofynnodd AN beth yw cyfrifoldebau'r swydd?

Darparodd TS, a oedd wedi cadeirio FfMLI Wrecsam, wybodaeth am y gwaith cysylltiedig, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd y FfMLI.

05/19 Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Cadeirydd – Tim Stratton

Enwebwyd gan David Evans a'i eilio gan Mabyn Pickering, gyda phawb a oedd yn bresennol ac efo'r hawl i bleidleisio yn gytûn.

Is-Gadeirydd – Neville Howell

Enwebwyd gan David Evans a'i eilio gan Mabyn Pickering, gyda phawb a oedd yn bresennol ac efo'r hawl i bleidleisio yn gytûn.

Eglurodd CS raglen y cyfarfod ar ôl cinio, ac eglurodd TW y materion cynnal a chadw.

Cafwyd egwyl ar gyfer cinio.

06/19 Croeso

Diolchodd CS i TW am drefnu'r cinio a llongyfarch TS ac NH am eu penodiadau. Gwahodd TS i gadeirio'r cyfarfod.

07/19 Cylch Gorchwyl

Roedd CS wedi cylchredeg copïau o'r cylch gorchwyl drafft cyn y cyfarfod.

Eglurodd MH fod Cylch Gorchwyl FfMLI Sir y Fflint a Wrecsam wedi'u cyfuno gan TW i greu'r drafft,

Cafwyd trafodaeth.

TS – Dylid cysylltu â sefydliadau eraill i anfon cynrychiolwyr penodol i fynychu cyfarfodydd.

NH – Fel aelodau neu sylwedyddion?

MH – Mae'n rhaid penodi person a enwir.

TS – Byddai modd iddynt fynychu fel sylwedyddion.

TW – Mae'n rhaid i'r FfMLI fod yn grŵp ymrwymedig gydag aelodau ymrwymedig.

TS – Dylai aelodau anfon enwau sefydliadau a manylion cyswllt at CS erbyn y cyfarfod nesaf er mwyn eu gwahodd i gyfarfodydd perthnasol. **PAWB**

TS – Mae'n rhaid i'r Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd fynychu cyfarfodydd wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru ac ati a sefydliadau mwy lleol.

Gadawodd DE y cyfarfod. Ymunodd RL â'r cyfarfod.

Cytunwyd ar y diwygiadau a bydd CS yn diweddarau'r ddogfen ac yn anfon copïau.

CS

TS – Beth yw cyfrifoldeb y ddau awdurdod lleol o ran hyrwyddo'r FfMLI?

TW – Mae gan y FfMLI dudalen ar wefan CSyFf ond nid yw'r fforwm yn cael ei hyrwyddo'n weithredol.

MH – Mae'r FfMLI yn rhan o Adran yr Amgylchedd ac mae ganddo dudalen ar y wefan.

DC – A oes cyllideb?

TW ac MH – Ni cheir cyllideb benodol. Mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu at dreuliau'r FfMLI. Dosbarthir yr adnoddau o fewn rheswm.

08/19 Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (Sir y Fflint a Wrecsam)

MH – Mae cyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddyletswydd statudol. Cafodd y cynllun diwethaf ei gyhoeddi yn 2007 a dylai cynlluniau bara deng mlynedd.

Cynhaliwyd y cam asesu (2016-17) gyda llawer o ymgynghori (2,000 o bobl). Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd wedi'i gyflwyno i dri Phwyllgor Craffu ac wedi bod yn destun ymgynghoriad statudol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth ac yna i'r Cyngor Llawn.

Mae'n gynllun strategol deng mlynedd a bydd y manylion yn y Cynlluniau Gweithredu Blyneddol.

TW – Mae CSyFf ar ei hôl hi ychydig. Fodd bynnag, mae arolygon wedi'u cynnal, yn ogystal â'r gwaith cyn ymgynghori, ac maent wedi cysylltu â'r ymgynghorwyr. Mae'r drafft wedi'i lunio ac maent yn aros am yr ymatebion. Ar ôl eu derbyn bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei ddiwygio fel y bo'r angen a'i gyflwyno i'r Cabinet ym mis Ebrill.

Mae'n ddogfen strategol ac uchelgeisiol ac mae'r Cynlluniau Gweithredu Blyneddol yn allweddol i roi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar waith, a fydd yn cael eu llunio yn y dyfodol agos.

TS – Dydi'r FfMLI ddim wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad, ai oherwydd nad oedd y FfMLI yn cael ei gynnal ar y pryd?

TW – Ie, ond roedd wedi'i anfon i aelodau'r FfMLI blaenorol.

TS – A yw'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam yn plethu'n dda gyda'r CDLI?

MH – Nid yw'r CDLI wedi'i fabwysiadu yn Wrecsam eto.

“Mae'r cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd wedi'i baratoi mewn modd sy'n golygu'r effaith leiaf bosib' ar asedau amgylcheddol Wrecsam. Bydd diogelu, gwrrachod a gwella'r amgylchedd naturiol yn caniatáu datblygu priodol yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, i gydbwyso anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Y tu hwnt i hyn, mae'r Cynllun i'w archwilio'n cefnogi datblygu rhwydwaith integredig o isadeiledd gwyrdd amlswyddogaethol o ansawdd uchel yn y Fwrdeistref Sirol a hefyd yn yr isranbarth ehangach gan gydnabod pwysigrwydd cyfleusterau felly i fioamrywiaeth, lles, amwynder, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.”

TS – A yw'r CDLI yn cyfyngu ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?

MH – Nac ydi. Ni ddylai'r CDLI a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fynd yn erbyn ei gilydd. Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cefnogi'r CDLI, mae llwybrau hamdden yn rhan o'r polisiau Seilwaith Gwyrdd.

CT – Os yw'r geiriad mewn dogfen yna mae'n rhoi credadwyaeth i bolisi neu ddogfen.

MH – Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ddogfen ffurfiol y mae CBSW a CSyFf wedi'i fabwysiadu.

DC – A yw'r Cynlluniau Gweithredu Blynyddol yn rhywbeth newydd?

MH – Roedd Cynlluniau Gweithredu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol, ond daeth y rhain wedyn yn waith dan grant y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Rŵan, dim ond gwaith statudol fydd yn cael ei wneud gan nad yw grant y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gael.

TW – Mae hyn yn wir yn Sir y Fflint. Bydd y FfMLI yn cael ei ddefnyddio i gynghori a llywio.

NH – Gan fod gan yr awdurdodau lleol FfMLI ar y cyd, pam ddim creu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd?

MH – Roedd yr adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn mynd rhagddo cyn y gwnaethpwyd y penderfyniad i ffurfio FfMLI ac felly penderfynwyd parhau efo'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar wahân. Mae'r ddau yn debyg iawn ac felly mae'n bosibl y gellir cael Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd yn y dyfodol.

Gadawodd EW y cyfarfod.

NH – A oes modd i ni wneud sylw ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Wrecsam a Sir y Fflint?

MH – Gallwch wneud sylw ar gynllun Sir y Fflint ond mae proses ymgynghori cynllun Wrecsam wedi dod i ben.

CT – A oes modd cylchredeg yr adroddiadau i'r aelodau?

MH a TW – Oes.

TS – CDLI?

RL – Yn mynychu cyfarfod ynglŷn â hyn nes ymlaen.

TW – Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cyfeirio at CDLI mewn termau generig.

09/19 Trafod y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol

TW – Beth sydd ar y FfMLI eisiau ei gyflawni yn y flwyddyn nesaf e.e. bod yn rhan o faterion cynlluniau cyflawni, cynllunio, iechyd, cysylltedd ar draws y ddwy sir? Mae angen hyn er mwyn i swyddogion baratoi ac ati, ac er mwyn rhannu'r gwaith ar draws oes y FfMLI.

DC – Gan fod y FfMLI yn darparu cyngor, a fyddai modd i MH a TW ofyn am gyngor ynghylch testunau penodol neu ganllawiau ar yr hyn y dylai FfMLI edrych arno?

TS – Yr awdurdod lleol a ddylai ddweud, "Cynghorwch ar....." fel bod y rhaglen waith yn gweithio'r ddwy ffordd.

TS – Yn cytuno. Mae'n rhaid i hyn fod yn werth chweil i'r ddwy ochr. Mae pobl wedi gweld colli'r FfMLI yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a byddai wedi bod yn bartner/ymgyngorai defnyddiol ar gyfer eitemau penodol e.e. ceisiadau grant. Gall yr awdurdod lleol awgrymu eitemau, ond nid yw'n dymuno bod yn rhagnodol.

DCh – Gwerthfawrogir pob adborth i helpu gydag arweiniad.

BS – Nid yw ffyrdd di-ddosbarth yn fater ar gyfer y FfMLI, felly a fyddai modd gofyn i rywun siarad efo'r FfMLI ynglŷn â hyn?

DCh – Mae CSyFf yn blaenoriaethu priffyrdd e.e. cyfrifoldebau strategol.

TW – Mae'r cynsail i wahodd rhywun o'r Gwasanaethau Stryd/Priffyrdd yn agored. Gall y FfMLI wrando a rhoi cyngor ar desun i ysgogi trafodaeth.

TS – Mae Natural England wedi cysylltu â Llwybrau Ceffyl Gogledd Ddwyrain Cymru ynglŷn ag ardal a adwaenir fel y Mawnogydd (The Mosses). Roedd arnynt eisiau i Lwybrau Ceffyl Gogledd Ddwyrain Cymru hyrwyddo'r ardal fel llwybr ceffyl gan ei fod yn warchodfa natur.

Mae Natural England, sy'n ymdrin â Gwarchodfa Natur y Mawnogydd, yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn warchodfa drawsffiniol, Swydd Amwythig a Wrecsam. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda Chymdeithas Ceffylau Prydain a thirfeddianwyr ynglŷn â mynediad.

Mae cynnig manylach yn cael ei lunio a chredaf ei fod yn ddarn da o waith ar gyfer y Cynllun Gwaith i'r Dyfodol.

O ran mapiau'r Arolwg Ordnans – nodi rhaglen waith i ddatrys beth yw'r diffiniad o "lwybrau eraill gyda mynedfa gyhoeddus".

Gall y FfMLI, ynghyd ag aelodau grwpiau cerdded a marchogaeth, ffurfio adnodd i ddatrys rhai anghysondebau.

A yw ffyrdd mabwysiedig Sir y Fflint ar-lein?

DCh – Ydyn, mi wnaif anfon dolen. **DCh**

TS – Sut mae'r rhain yn cysylltu â'r Rhestr Enwau Strydoedd Cenedlaethol? Y rhai diwethaf rwyf wedi'u gweld yw rhai 2014. Os caiff y rhaglen waith hon ei mabwysiadu, yna gellir gofyn i'r Adran Briffyrdd pa rai sy'n hygyrch a sut gellir cael mynediad at y rheiny nad ydynt ar-lein.

MH – Gellir derbyn sesiwn ar Fapiau Diffiniol a thermau.

TS – Roedd yr hyn a wnaeth SH yn Wrecsam yn ddefnyddiol iawn ond byddai angen cynnwys yr hyn sy'n syrthio drwy'r bylchau.

MH – Gellir gofyn i'r Adran Briffyrdd roi cyflwyniad ar ariannu, termau ac ati, a all gynnwys Mapiau Diffiniol ar-lein.

DC – A oes mapiau o hawliau tramwy ar gael ar ffurf llyfryn neu daflen?

TS – Gellir gwneud hyn ar sgrin mewn cyfarfod.

CT – Gall gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru fod yn eitem ar raglen yn y dyfodol.

TW – Byddai hyn yn cynnwys Cenedlaethau'r Dyfodol a strategaethau eraill. Mae strategaethau sy'n hyrwyddo buddion iechyd yn cael eu hyrwyddo. Gall hyn fod yn rhywbeth i'r FfMLI ddod yn rhan ohono. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn.

TS – Mae'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt mewn cyswllt â Fforwm Busnes Wrecsam ynglŷn â Stad Ddiwydiannol Wrecsam. Mae hyn yn ymddangos yn ffordd ddefnyddiol o ymgysylltu â busnesau gyda mynediad ac yna iechyd.

A oes rhywbeth tebyg yn Sir y Fflint?

TW – Mae yna Fforwm Busnes, ond gellir gofyn i'r Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt roi cyflwyniad i'r FfMLI o ran y gwaith yn Wrecsam a gall hynny wedyn fod o fudd i Sir y Fflint.

DC – Eitemau ar gyfer rhaglen y cyfarfod nesaf?

TW – Cynlluniau Cyflawni – y Mawnogydd – Dosbarthiad Priffyrdd.

DC – Anfon awgrymiadau at CS?

TW – Ni fyddai'r cyflwyniad gan yr Adran Briffyrdd o ran hierarchaeth, dosbarthiad ac ati yn eitem ddigon hir, ond fe all y drafodaeth wedyn arwain at waith pellach.

NH – A oes modd cynnwys lle mae tir mynediad agored?

AP – Mae hyn wedi'i fapio ac felly fe wnaif i hyn. **AP**

10/19 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn falch o arsylwi FfMLI Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i gynhyrchu "Datganiadau Ardal" a fydd yn gyrru cyfeiriad ei waith ac yn ystyried gofynion Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i aelodau eraill o staff gyfrannu at waith y FfMLI a gallwn ddarparu mwy o wybodaeth am ddatganiadau ardal mewn cyfarfodydd i ddod.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ailstrwythuro pethau ac ar ôl iddo orffen gwneud hynny ym mis Gorffennaf bydd yn cyfarwyddo ei feysydd gwaith a rolau ei swyddogion.

Yn dilyn tannau gwyllt difrifol dros yr haf, rydym ni hefyd yn edrych ar effeithiolrwydd Mynegai Difrifoldeb Tanau'r Swyddfa Dywydd a byddwn yn adrodd ar y canlyniad pan fydd ar gael.

Dymunodd Alun Price pob hwyl i'r aelodau, hen a newydd, yn eu rolau newydd ar y FfMLI ar y cyd.

Os oes gan unrhyw un ymholiadau eraill, cysylltwch â ni.

NH – A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â Thir Gofal?

AP – Nac ydi, ddim mwyach. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol amdano rŵan.

TW – Cyfnod ymgynghori'r Datganiadau Ardal pan fydd y drafftiau ar gael – a oes angen adborth?

AP – Oes, os gwelwch yn dda.

11/19 Unrhyw fater arall

- a) NH – A oes modd rhannu rhestr o'r aelodau a'u manylion cyswllt i bob aelod?

Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn, bydd CS yn dosbarthu'r manylion.

CS

- b) TS – Glastir. A oes ceisiadau dan Glastir yn Sir y Fflint neu Wrecsam?

MH a TW – Nac oes, hyd y gwyddwn.

HA – Onid yw pobl yn gwybod bod ffenestr mynediad ar agor ar gyfer eleni?

DC – Mae Glastir yn dal ar agor.

TS – Rwyf wedi ceisio derbyn gwybodaeth drwy Fforwm Cadeiryddion FfMLl i gadarnhau a yw'r cynllun wedi bod yn llwyddiant ond nid wyf wedi derbyn adborth hyd yma.

HA – Yn gallu anfon awgrymiadau ond nid yw statws y cynllun yn hysbys.

- c) TS – Ceisiadau cynllunio. Mae yna gais am 600 o dai ger ffordd gyswllt Wrecsam. A ddylem ni fod yn edrych ar wella seilwaith gwyrdd mewn perthynas â hawliau tramwy?

MH – Awgrymu ffurfio is-grŵp, a fydd yn gallu ymateb yn gynt.

CT – Os yw'n gais cynllunio mawr yna gall y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd gyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Cynllunio. Gellir cylchredeg yr ymatebion i dderbyn sylwadau arnynt.

TW – Treuliwyd amser yn FfMLI Sir y Fflint yn trafod ceisiadau cynllunio. Mi wnaf gysylltu â rhywun i dderbyn arweiniad ar yr hyn sydd angen ei gynnwys mewn ymateb. **TW**

DC – Mae gan Gymdeithas y Cerddwyr ymgynghorai penodol ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam y mae'r Adran Gynllunio yn anfon gwybodaeth berthnasol am geisiadau cynllunio ato.

TS – Cynnwys Seilwaith Gwyrdd sy'n addas ar gyfer amryw o ddefnyddwyr.

TW – Yn argymhell sefydlu is-grŵp i wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio perthnasol.

TS – Pwy fyddai â diddordeb bod ar yr is-grŵp?

Datganodd PC a DC diddordeb.

- d) RL – Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhywbeth unigryw i Gymru. Mae'n cynnwys saith nod lles ac mae ar gael ar-lein. Mae Byrddau Sector Cyhoeddus wedi'u sefydlu ymhob awdurdod lleol, a phob un yn datblygu cynlluniau lles gyda meysydd blaenoriaeth.

Byrddau Iechyd – Beth am Symud – wedi'i anelu at ystod o bartneriaid sy'n cydweithio. Mae oddeutu hanner cant o sefydliadau yn rhan o hyn. Gallwn siarad am hyn mewn mwy o fanylder yn y dyfodol a sut mae'n cyd-fynd â'r FfMLI a'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Gellir hyrwyddo mynediad a llwybrau.

Gadawodd CT y cyfarfod.

TS – Bydd yn cael ei gynnwys yng ngwaith y FfMLI ond mae angen cynnwys sefydliadau eraill hefyd.

- e) NV – Cawn ein hannog i ddarparu teithiau ar gyfer iechyd ond nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn darparu cyllid ar gyfer sicrwydd yswiriant. Mae hyn yn gwrth-ddweud yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei hyrwyddo.

TS – Mae marchogion hefyd yn cael problemau tebyg efo yswiriant.

12/19 Dyddiad, Amser a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

I'w penderfynu yn y dyfodol agos.

